**Awdurdod Parc Cenedlaethol**

**26 Hydref 2022**

Yn bresennol (yn Bersonol)
Cynghorydd Mrs D Clements (Cadeirydd)
Cynghorydd Steve Alderman, Cynghorydd Dr SL Hancock, Dr M Havard , Mrs S Hoss, Cynghorydd M James, Cynghorydd R Jordan, Mr GA Jones, Cynghorydd PJ Morgan, Dr RM Plummer, Cynghorydd Mrs V Thomas a'r Cynghorydd Mrs M Wiggins.

Yn bresennol (o Bell)
Dr R Heath-Davies, Mrs J James, Cynghorydd R Owens, Cynghorydd Mrs S Skyrme -Blackhall, Cynghorydd A Wilcox a'r Cynghorydd C Williams.

[ Parc Llanion, Doc Penfro ac o Bell 10.00am – 11.30am; 11.40am – 1.25pm]

**1. Ymddiheuriadau**
Nid oedd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. Datgan Buddiannau**
Gwnaeth Dr R Plummer ddatganiad cyffredinol (personol) ynghylch ei haelodaeth o Fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru ac fel ymddiriedolwr Plantlife. Datgelodd y Cynghorydd M James fuddiant personol mewn perthynas ag adroddiad 33/22 Ariannu Cyfleusterau Cyhoeddus.

**3. Cofnodion**
Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Gorffennaf 2022 i'w cadarnhau a'u llofnodi.

**Penderfynwyd** cadarnhau a llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Gorffennaf 2022.

**4. Materion yn codi**
Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

**Nodwyd.**

**5. Cyhoeddiadau'r Cadeirydd**
Dywedodd y Cadeirydd bod yr haf wedi bod yn haf prysur, ac mai pleser oedd mynychu Sioe'r Sir, cyfarfod ag Aelodau'r Senedd a chynrychiolwyr sefydliadau partner. Pleser hefyd oedd cyflwyno siec i enillydd cystadleuaeth a gynhaliwyd yn y Sioe, oedd wedi mwynhau diwrnod allan gyda'i theulu yng Nghastell Henllys. Ar nodyn mwy trist, dywedodd y Cadeirydd mai braint oedd cynrychioli Parciau Cenedlaethol Cymru yn

angladd EM y Frenhines Elizabeth II. Ymhlith y digwyddiadau eraill a fynychwyd oedd taith gerdded coetir gwyllt a the parti yng Nghoed Canaston i ddathlu 70 mlwyddiant yr Awdurdod, a Gwobrau Croeso Sir Benfro, lle'r oedd nifer o safleoedd a phrosiectau'r Awdurdod wedi dod yn ail.

Ynghyd ag Aelodau eraill, roedd y Cadeirydd hefyd wedi mynychu Cynhadledd Parciau Cenedlaethol y DU yn Exmoor pan oedd wedi cadeirio'r Fforwm Cadeiryddion oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r 15 APC o bob rhan o'r DU. Rhoddwyd cyfle i rai o'r Aelodau oedd hefyd wedi mynychu'r Gynhadledd sôn am eu profiadau, a dywedwyd bod recordiadau sain o'r prif anerchiadau ar gael i unrhyw un oedd â diddordeb. Yn olaf, gan gyfeirio at farwolaeth tad y Prif Weithredwr yn ddiweddar, estynnodd gydymdeimlad yr Awdurdod, a dywedodd ei bod wedi anfon cerdyn ar ran yr Aelodau.

**Nodwyd.**

**6. Adroddiadau cyfarfodydd amrywiol Bwyllgorau'r Awdurdod**

Cyflwynwyd yr adroddiadau canlynol o gyfarfodydd nifer o Bwyllgorau'r Awdurdod i'r Aelodau eu hystyried/er gwybodaeth.

( i ) Pwyllgorau Rheoli Datblygu a gynhaliwyd ar 20 Gorffennaf 2022 a 7 Medi 2022;

(ii) Y Pwyllgor Adolygu Gweithredol a gynhaliwyd ar 29 Mehefin 2022;

Dywedwyd na dderbyniwyd ymateb oddi wrth Gyngor Cymuned Llandyfái i'r Rhybudd o Gynnig ynglŷn â Pharc Chwarae, ac y byddai'r mater yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor yn ei gyfarfod nesaf gydag adroddiad dilynol yn ôl i'r Awdurdod.

(iii) Y Pwyllgor Adnoddau Dynol a gynhaliwyd ar 29 Mehefin 2022 a 27 Gorffennaf 2022;

Mynegodd rhai Aelodau bryder na ddarparwyd diweddariad, yn enwedig i'r Aelodau hynny o'r Awdurdod nad oeddent yn rhan o'r Pwyllgor Adnoddau Dynol (AD), mewn perthynas ag ailstrwythuro'r sefydliad a'r adolygiad cyflogau a graddfeydd. Roedd y wybodaeth hon yn hanfodol i ddeall effeithiolrwydd, costau a risgiau'r Awdurdod, a gofynnwyd am bapur briffio.

Atebodd y Prif Weithredwr bod y materion hyn wedi'u dirprwyo i'r Pwyllgor AD oedd fod cyfarfod yn yr ychydig wythnosau nesaf, ac ychwanegodd y byddai'r papurau hynny ar gael i bob Aelod. Fodd bynnag, mynegodd hefyd ei barodrwydd i gynnal gweithdy pellach os mai dyna oedd dymuniad yr Aelodau.

(iv) Pwyllgor Ieuenctid a gynhaliwyd ar 12 Gorffennaf 2022 ac 11 Hydref 2022;

Canmolwyd gwaith y Pwyllgor, ond gofynnwyd am gynnwys cyfenwau'r aelodau ifanc yn y cofnodion yn y dyfodol.

(v) Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol a gynhaliwyd ar 13 Gorffennaf 2022;
(vi) Panel Recriwtio Cyfarwyddwr a gynhaliwyd ar 27 Gorffennaf 2022 ac 8 Awst 2022; a'r
(vii) Pwyllgor Cronfa Datblygu Cynaliadwy a gynhaliwyd ar 5 Hydref 2022.

**Penderfynwyd** mabwysiadu/derbyn cofnodion y Pwyllgorau uchod.

**7. Adroddiad Blynyddol ar Gyflawni Amcanion Llesiant 2021/22**

Atgoffwyd yr Aelodau bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar yr Awdurdod i nodi ei Amcanion Llesiant ac i ddangos sut mae'r amcanion hynny yn cyfrannu at saith Nod Llesiant Llywodraeth Cymru. O dan y ddeddfwriaeth, rhaid i gyrff gyhoeddi adroddiad blynyddol yn dangos y camau a gymerwyd ganddynt i gyflawni eu hamcanion. Hefyd rhaid iddynt ddangos sut yr oeddent wedi cymhwyso'r 5 ffordd o weithio o dan yr egwyddor datblygu cynaliadwy o Hirdymor, Atal, Integreiddio, Cydweithio a Chynnwys.

Er mwyn sicrhau bod ystyriaethau cydraddoldeb a bioamrywiaeth yn cael eu prif ffrydio ar draws yr Awdurdod, roedd yr adroddiad blynyddol hefyd yn gweithredu fel ei adroddiad blynyddol ar gydraddoldeb ac yn ffurfio un elfen o'r adroddiad ar y modd y mae'r Awdurdod yn cydymffurfio â'r ddyletswydd Adran 6 Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau o dan Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

Nodwyd bod yr Awdurdod wedi adolygu ei Amcanion Llesiant a'i flaenoriaethau lefel uchel yn 2021/22. Hwn felly oedd yr adroddiad blynyddol terfynol sy'n adrodd yn erbyn Amcanion Llesiant blaenorol yr Awdurdod a nodwyd yn y Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau 2021/22. O ganlyniad, roedd y cynnydd yn erbyn rhai gweithgareddau a gynlluniwyd ar gyfer 2021/22 wedi'i effeithio gan y blaenoriaethau a glustnodwyd o'r newydd a gweithgareddau'r dyfodol sy'n ymwneud â'r newid sefydliadol. Gan mai hon oedd y flwyddyn olaf o adrodd yn erbyn Amcanion Llesiant blaenorol APCAP, roedd Crynodeb o'r Uchafbwyntiau am y cyfnod 2016-22 wedi'i gynnwys ar ddechrau'r adroddiad ar bob un o'r Amcanion Llesiant.

Roedd yr Aelodau wedi canmol y swyddog ar ddogfen oedd wedi'i chyflwyno'n dda, yn ddiddorol i'w darllen, ac yn dangos sut oedd yr

Awdurdod yn cyflawni ei amcanion. Gwnaed ychydig o fân awgrymiadau y gellid eu hystyried a'u cynnwys yn y dyfodol, ond mynegwyd eu gwerthfawrogiad i'r holl staff am eu gwaith, a dweud bod y ddogfen yn dangos dyfnder ac amrywiaeth y gwaith a gyflawnir. Cyfeiriwyd at y graddfeydd coch ac oren yn erbyn nifer o'r mesurau cynllunio, a gofynnodd un Aelod a oedd angen gwneud mwy i wella'r amseroedd aros i ymgeiswyr am ganiatâd cynllunio ac i roi gwybod iddynt am y camau a gymerir. Atebodd y Prif Weithredwr bod ystadegau'r rhan fwyaf o Awdurdodau wedi gostwng o ganlyniad i gyfyngiadau Covid a bod cynllunio yn dioddef oherwydd marchnad recriwtio anodd ar draws y wlad. Fodd bynnag, roedd yn cydnabod bod hwn yn faes heriol i'r Awdurdod ac y byddai camau yn parhau i gael eu cymryd i ddatblygu staff a gwella'r prosesau.

Gan nodi hyd y ddogfen, cwestiynodd rhai Aelodau a fyddai fformat byrrach neu 'adroddiad effaith' mwy gweledol yn golygu mwy o ymgysylltu. Atebodd y swyddog bod y ddogfen yn bennaf yn fodd o adrodd ar eu perfformiad i Lywodraeth Cymru ac Archwilio Cymru, a bod y mater o gapasiti yn codi o ran cynhyrchu dogfennau ychwanegol. Fodd bynnag, parhawyd i ystyried opsiynau amrywiol oedd hefyd yn hygyrch i'r rhai sy'n defnyddio technoleg gynorthwyol.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol ar Gyflawni Amcanion Llesiant 2021/22.

**8. Adroddiad Monitro Blynyddol 2022 ar Gynllun Datblygu Lleol Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro 2**

Atgoffwyd yr Aelodau bod yr Adroddiad Monitro Blynyddol yn ddogfen a gynhyrchir gan yr Awdurdod bob mis Hydref, sy'n edrych yn ôl ar y flwyddyn ariannol flaenorol, rhwng 1 Ebrill a 31 Mawrth. Roedd yr Adroddiad yn asesu i ba raddau yr oedd strategaeth a pholisïau Cynllun Datblygu Lleol 2 yn cael eu cyflawni drwy fesur amrywiol ddangosyddion i asesu perfformiad y polisïau cynllunio unigol a nodir yn y Cynllun Datblygu Lleol a fabwysiadwyd, ac yn rhoi portread cyffredinol o'r agweddau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yn y Parc Cenedlaethol. Yr adroddiad a gyflwynwyd oedd yr Adroddiad Monitro Blynyddol cyntaf ers mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol 2 fis Medi 2020 ac roedd yn cwmpasu'r flwyddyn ariannol Ebrill 2021 hyd at ddiwedd mis Mawrth 2022.

Yn ogystal â rhai sylwadau a wnaed cyn y cyfarfod, gofynnodd yr Aelodau a ellid rhoi mwy o gyd-destun yn erbyn y targedau hynny lle gwnaed penderfyniadau yn groes i argymhelliad y swyddog, er mwyn tawelu meddwl eraill am y trafodaethau hirfaith a fu dan yr amgylchiadau hyn. Cytunodd Pennaeth Cyfarwyddyd y Parc i gynnwys dolen gyswllt i gofnodion y cyfarfodydd yn y cyfryw achosion. Roedd yr Aelodau hefyd

yn gobeithio y gallai'r meysydd hynny lle nad oedd y targedau yn cael eu cyrraedd fod yn destun trafod mewn gweithdai i sicrhau bod y pwyntiau dysgu hynny yn cael eu hystyried. Hefyd nododd y swyddogion bod fersiwn rhyngweithiol o'r ddogfen wedi'i chynhyrchu ac y byddai ar gael ar wefan yr Awdurdod. Gellid creu crynodeb gweithredol yn ogystal.

**Penderfynwyd** cymeradwyo Adroddiad Monitro Blynyddol (a’r atodiadau) ar Gynllun Datblygu Lleol Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro 2 i’w gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Hydref 2022.

**9. Cynllun Datblygu Lleol 2: Yr Ymgynghori ar y Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA).**

Atgoffwyd yr Aelodau bod yr Awdurdod fis Medi 2021 wedi cytuno i gyhoeddi cyfres o ddogfennau Canllawiau Cynllunio Atodol drafft ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus; roedd hyn wedi cychwyn ddechrau fis Ionawr 2022, a daeth i ben ar 15 Ebrill 2022. Nodwyd bod y ddogfen ganllaw ar Effaith Gronnol Tyrbinau Gwynt yn cwmpasu Sir Benfro gyfan a bod y ddogfen wedi'i pharatoi ar y cyd â Chyngor Sir Penfro. Roedd gweddill y dogfennau yn cwmpasu Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn unig.

Ynghlwm oedd adroddiad yn crynhoi canlyniadau'r ymgynghoriad cyhoeddus ac yn clustnodi newidiadau a argymhellir i'r Canllawiau Cynllunio Atodol i’r Aelodau eu hystyried. Nodwyd bod yr ymatebion i'r Canllawiau ar Golli Gwestai yn gofyn am fwy o waith arnynt ac nad oeddent wedi’u dwyn gerbron y cyfarfod ar hyn o bryd. Roedd yr ymatebion (ac eithrio Colli Gwestai) wedi arwain at gofnodi tri deg chwech o sylwadau unigol, a darparwyd testun llawn y sylwadau hynny hefyd, yn ogystal â'r tudalennau arfaethedig i'w golygu yn y dogfennau ymgynghori.

Diolchodd yr Aelodau i'r swyddogion am y cyflwyniad clir a'r modd tryloyw y cyflwynwyd y sylwadau.

**Penderfynwyd** :

a) cytuno ar ymatebion y Swyddogion i'r ymatebion ymgynghori a dderbyniwyd fel y nodir yn Atodiad A ac Atodiad B i’r adroddiad.

b) Mabwysiadu’r Canllawiau Cynllunio Atodol ar y pynciau a nodir isod, yn amodol ar y diwygiadau a nodir yn Atodiad C i’r adroddiad.

Effaith Gronnol Tyrbinau Gwynt - Canllawiau a baratowyd ar y cyd â Chyngor Sir Penfro
Glo - Ansefydlogrwydd Tir
Safleoedd Geoamrywiaeth o Bwysigrwydd Rhanbarthol
Parthau Diogelu Mwynau
Ardal Gadwraeth Angle
Ardal Gadwraeth Caerfarchell

Ardal Gadwraeth Ynys Bŷr
Ardal Gadwraeth Aber Bach
Ardal Gadwraeth Maenorbŷr
Ardal Gadwraeth Trefdraeth
Ardal Gadwraeth Portclew
Ardal Gadwraeth Porth-gain
Ardal Gadwraeth Saundersfoot
Ardal Gadwraeth Solfach
Ardal Gadwraeth Tyddewi
Ardal Gadwraeth Dinbych-y-pysgod
Ardal Gadwraeth Trefin

c) Rhoi awdurdod wedi'i ddirprwyo i Bennaeth Cyfarwyddyd y Parc i wneud mân newidiadau pellach i gynnwys ystyried sylwadau Cyngor Sir Penfro ar y safbwyntiau a gyflwynwyd ar y Canllawiau Cynllunio Atodol ar Effaith Gronnol Tyrbinau Gwynt. Byddai unrhyw newidiadau a gynigir gan Gyngor Sir Penfro oedd yn arwyddocaol eu natur yn cael eu hadrodd yn ôl i'r Awdurdod Parc Cenedlaethol i'w hystyried ymhellach.

**10. Cynllun Datblygu Lleol 2 Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro – Canllawiau Cynllunio Atodol**

Dywedwyd bod dwy eitem o Ganllawiau Cynllunio Atodol (CCA) drafft wedi'u cynhyrchu. Roedd y cyntaf, oedd yn ymwneud â Morweddau, yn ddiweddariad o'r canllawiau presennol, a nodwyd y bwriedir cyhoeddi'r ddogfen hon ar y cyd â Chyngor Sir Penfro. Roedd yr ail ddogfen CCA yn ymwneud â Choed a Choetiroedd, ac roedd y canllawiau hyn yn disgrifio sut y dylai plannu coed a choetir newydd ystyried rhinweddau arbennig a nodweddion nodedig y dirwedd lle plennir y coed – gan ganolbwyntio ar 'y goeden iawn yn y lle iawn'.

Gofynnwyd i'r Aelodau gymeradwyo'r ddwy ddogfen canllawiau cynllunio atodol ar gyfer ymgynghori. Nodwyd bod y CCA Morweddau presennol wedi'i drosglwyddo'n ffurfiol o Gynllun Datblygu Lleol 1 fel mesur interim, a byddai hwn yn parhau i gael ei ddefnyddio tra bod yr ymgynghori yn cael ei gynnal.

Nodwyd bod rhai sylwadau wedi'u gwneud gan Aelod cyn y cyfarfod, ac roedd y swyddogion yn hapus i wneud y gwaith golygu a awgrymwyd, nad oedd yn sylweddol, cyn cyhoeddi'r dogfennau ar gyfer ymgynghori.

Roedd yr Aelodau yn pwysleisio pa mor bwysig yw'r CCA i ddefnyddwyr y system gynllunio, a nodwyd bod llawer o'r canllawiau yn fanwl iawn, gyda therminoleg dechnegol. Awgrymwyd felly y gellid cynnwys paragraff yn crynhoi'r hyn y mae'r canllawiau yn ei olygu yn ymarferol ar ddechrau pob dogfen, a chynnwys hyn yn y fersiwn derfynol cyn ei fabwysiadu.

Cytunodd y swyddogion bod hwn yn awgrym da ac y byddent yn ystyried ei ddatblygu.

**Penderfynwyd**:
a) cymeradwyo'r Canllawiau Cynllunio Atodol ar Forweddau a'r Canllawiau Cynllunio Atodol ar Goed a Choetiroedd fel y nodir yn Atodiadau A a B i'r adroddiad ac ar wefan yr Awdurdod, ar gyfer ymgynghori.
b) Rhoi awdurdod wedi'i ddirprwyo i Bennaeth Cyfarwyddyd y Parc i wneud mân newidiadau pellach i gynnwys ystyried sylwadau Cyngor Sir Penfro ar y Canllawiau Cynllunio Atodol Drafft ar Forweddau. Byddai unrhyw newidiadau a gynigir gan Gyngor Sir Penfro oedd yn arwyddocaol eu natur yn cael eu hadrodd yn ôl i'r Awdurdod Parc Cenedlaethol i'w hystyried ymhellach.

[Gohiriwyd y cyfarfod rhwng 11.30am a 11.40am]

[Ymddiheurodd y Cynghorydd C Williams a gadawodd y cyfarfod yn ystod y ddadl ganlynol.]

**11. Ariannu Cyfleusterau Cyhoeddus**

Atgoffwyd yr Aelodau bod cais gan Gyngor Sir Penfro (CSP) i'r Awdurdod gyfrannu at reoli cyfleusterau cyhoeddus ger meysydd parcio yr Awdurdod Parc Cenedlaethol drwy godi'r tâl am barcio ceir, neilltuo'r incwm ychwanegol a throsglwyddo'r incwm hwnnw i Gyngor Sir Penfro, wedi cael ei drafod gan yr Awdurdod Parc Cenedlaethol ar 15 Mehefin 2022. Penderfynwyd yn y cyfarfod hwnnw bod "yr Awdurdod yn agor trafodaethau rhagarweiniol gyda CSP ar lefel swyddogion neu fel gweithgor Swyddogion / Aelodau a defnyddio'r trafodaethau hynny fel cyfle i drafod materion sydd o fudd i'r Awdurdod gan gynnwys darparu toiledau 'llefydd newid' oedd yn darparu cyfleusterau gwell i ddefnyddwyr anabl."

Nodwyd bod llythyr wedi'i anfon at Brif Weithredwr CSP ar y 4ydd o Orffennaf. Trafodwyd y mater mewn cyfarfod rhwng Prif Weithredwyr y ddau Awdurdod ar y 26ain o Fedi a derbyniwyd ymateb i'r llythyr ar yr 28ain o Fedi. Nodwyd bod y cais gan CSP yn y llythyr hwn wedi cynyddu i £205,582 gan gynnwys 5 toiled ychwanegol oedd o fewn meysydd parcio di-dâl a reolir gan yr Awdurdod. Roedd crynodeb o ymatebion CSP i geisiadau'r Awdurdod wedi'i gynnwys yn yr adroddiad, yn ogystal â chopïau o'r llythyrau.

Aeth yr adroddiad rhagddo i nodi nifer o faterion i'r Aelodau eu hystyried, a gofynnwyd iddynt nodi a fyddent yn cytuno, mewn egwyddor, i gais y Cyngor Sir.

Yn y cyfarfod, dechreuodd Swyddog Adran 151 yr Awdurdod (y Swyddog Ariannol Cyfrifol) drwy roi trosolwg o allu ariannol yr Awdurdod i ymateb i'r cais, a dywedodd bod yr Awdurdod yn disgwyl cyllideb sefydlog gan Lywodraeth Cymru, fyddai'n arwain at ddiffyg yn 2023/24. Fodd bynnag pe bai Grant y Parc Cenedlaethol yn cael ei ostwng 5% neu 10%, gallai'r diffyg fod yn filiwn a mwy o bunnoedd yn 22/23/24. Ni fyddai'r Awdurdod yn gwybod faint o gyllid y byddai'n ei dderbyn tan fis Rhagfyr pan fydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ei chyllideb. Dywedodd ein bod yn wynebu cyfnod heriol, gan annog bod yn bwyllog cyn gwneud penderfyniad fyddai'n arwain at ganlyniadau ariannol sylweddol. Hefyd dywedodd pe bai penderfyniad yn cael ei wneud i dderbyn y cais, ei bod yn debygol y byddai'r sail gyfreithiol dros wneud hynny yn destun craffu.

Roedd yr Aelodau yn glir nad oeddent am i unrhyw doiledau gau, gan gydnabod eu pwysigrwydd i bobl leol ac i ymwelwyr fel ei gilydd, a'r niwed i enw da'r Parc Cenedlaethol y gallai hynny ei achosi oherwydd diffyg cyfleusterau toiledau a'r effaith ar draethau baner las y Sir. Fodd bynnag, mynegwyd nifer o bryderon ganddynt: bod sefyllfa ariannol yr Awdurdod yn golygu y byddai'n rhaid trosglwyddo'r costau i'r cyhoedd mewn cyfnod o gynni economaidd; bod darparu cyfleusterau toiledau y tu allan i gylch gwaith yr Awdurdod; nad oedd gan yr Awdurdod y sgiliau i allu rheoli'r cyfryw gyfleusterau ac felly byddai cytundeb hyd braich yn ei adael heb unrhyw reolaeth dros y modd y mae'r arian yn cael ei wario nac ychwaith dros y modd y rheolir y cyfleusterau; y gellid disgwyl i'r egwyddor o neilltuo arian i'w roi i drydydd partïon fodoli mewn meysydd eraill; nad oedd rhai o'r adeiladau eu hunain mewn cyflwr da ac y gallent fod yn gryn faich a rhwymedigaeth. Roeddent hefyd yn siomedig ag agwedd llythyr CSP, gan nad oeddent, i bob golwg, yn cynnig ysbryd o weithio mewn partneriaeth, yn enwedig gan fod y swm y gofynnwyd amdano wedi cynyddu ers i'r cais cyntaf gael ei wneud. Felly cynigiwyd ac eiliwyd, gyda gofid, bod y cais yn cael ei wrthod.

Serch hynny, roedd yr Aelodau yn dal yn bryderus ynghylch y posibilrwydd o gau cyfleusterau, ac awgrymwyd y gallai fod ffyrdd eraill o ddarparu toiledau yn y dyfodol, yn enwedig pe baent yn cynnig cyfleusterau ychwanegol megis cawodau neu loceri storio diogel. Nid oeddent ychwaith yn gwrthod yn llwyr y posibilrwydd y gallai'r Awdurdod wneud cyfraniad ariannol tuag at ddarparu cyfleusterau, a nodwyd mai dyna oedd yr awgrym gwreiddiol. I'r perwyl hwn awgrymwyd ffurfio gweithgor bychan yn cynnwys Aelodau a swyddogion o'r ddau sefydliad i drafod y sefyllfa a cheisio dod o hyd i ateb. Awgrymwyd ymhellach y gellid gwahodd Croeso Sir Benfro yn ogystal. Dywedodd cynigydd ac eilydd y cynnig gwreiddiol eu bod yn hapus i ddiwygio'u cynnig i gynnwys yr awgrym hwn, ac fe'i rhoddwyd i bleidlais.

**Penderfynwyd** bod yr Awdurdod yn gwrthod cais CSP i gynyddu ei daliadau parcio, a neilltuo'r swm a godir i ariannu cyfleusterau cyhoeddus a reolir gan Gyngor Sir Penfro, ond bod y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr yn cyfarfod ag Arweinydd a Phrif Weithredwr Cyngor Sir Penfro a Chadeirydd a Phrif Weithredwr Croeso Sir Benfro i ymchwilio i opsiynau eraill, ac i adrodd yn ôl i gyfarfod o'r Awdurdod yn y dyfodol.

**12. Cod Llywodraethu Corfforaethol**

Dywedwyd bod y Cod Llywodraethu Corfforaethol yn ddisgrifiad cynhwysfawr o ymrwymiad yr Awdurdod i lywodraethu corfforaethol, a dealltwriaeth yr Awdurdod o'r Cod, ac yn amlinellu'r trefniadau y mae'r Awdurdod wedi'u rhoi yn eu lle i sicrhau bod y broses honno yn cael ei gweithredu a'i monitro'n effeithiol yn barhaus. Roedd y Cod yn gysylltiedig â Datganiad Llywodraethu Blynyddol yr Awdurdod, oedd yn ddogfen statudol oedd yn egluro'r prosesau a'r gweithdrefnau sydd yn eu lle i alluogi'r Awdurdod i gyflawni ei swyddogaethau yn effeithiol. Roedd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn cael ei gynhyrchu yn flynyddol yn dilyn adolygiad o drefniadau llywodraethu yr Awdurdod, ac roedd yn cynnwys cynllun gweithredu i fynd i'r afael ag unrhyw faterion llywodraethu arwyddocaol a glustnodwyd.

Roedd y Cod oedd gerbron yr Aelodau wedi'i ddiweddaru i gryfhau'r cyfeiriadau at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac i amlygu'r egwyddorion yn Fframwaith Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) a Chymdeithas Prif Weithredwyr yr Awdurdodau Lleol (SOLACE) "Cyflawni Llywodraethu Da mewn Llywodraeth Leol". Roedd diwygiadau ychwanegol wedi'u cymhwyso i ddiweddaru'r Cod Llywodraethu i amlygu newidiadau sy'n ymwneud â threfniadaeth fewnol a llywodraethu yr Awdurdod.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r Cod Llywodraethu Corfforaethol.

**13. Adroddiad Blynyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol 2023/24**

Atgoffwyd yr Aelodau mai cylch gwaith Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (IRPW) oedd pennu'r cyflogau a'r lwfansau sy'n daladwy i Aelodau gan awdurdodau lleol, gan gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, yng Nghymru. Roedd ei Adroddiad Blynyddol drafft ar gyfer 2023/24 wedi'i gyhoeddi, a chrynhowyd y prif argymhellion sy'n berthnasol i'r Awdurdod hwn yn adroddiad y swyddog, a'r prif benderfyniad oedd codiad o 1.76% i'r cyflog sylfaenol yn 2023/24. Nodwyd bod fformat adroddiad IRPW wedi newid o fformat y blynyddoedd blaenorol, sy'n canolbwyntio ar y newidiadau a benderfynwyd gan y panel, ac roedd hefyd yn cynnwys nifer o gwestiynau ymgynghori yr oedd y Panel yn croesawu sylwadau arnynt. Byddai'r newidiadau yn dod i rym ar 1 Ebrill 2023.

Gofynnwyd am farn yr Aelodau ynghylch a ddylid cyflwyno ymateb i Adroddiad Blynyddol drafft IRPW, ac os felly, beth oedd cynnwys yr ymateb hwnnw.

Nodwyd yn y cyfarfod y dylai Aelodau ystyried nifer yr uwch gyflogau y dylid eu talu - ar hyn o bryd telir uwch gyflog i'r Cadeirydd, y Dirprwy Gadeirydd ac i Gadeirydd y Pwyllgor Rheoli Datblygu. Croesawyd hefyd unrhyw sylwadau ar y cwestiynau ymgynghori, a thybiwyd, fel ar achlysuron blaenorol, bod yr Aelodau'n dymuno cymryd rhan mewn unrhyw ddigwyddiadau ymgysylltu a drefnir gan IRPW yn y dyfodol.

Roedd yr Aelodau yn croesawu fformat byrrach yr adroddiad a chynnwys yr holiadur. Roeddent o'r farn bod y dyfarniad cyflog yn hael o dan yr amgylchiadau ariannol presennol, ac roeddent yn hapus i barhau i dalu tri uwch gyflog. Fodd bynnag, codwyd y cwestiwn unwaith yn rhagor ynghylch eithrio talu treth ar gostau teithio yr Aelodau a benodir gan Lywodraeth Cymru.

**Penderfynwyd** cyflwyno ymateb fel yr amlinellir uchod.

**14. Gweithgor Strategaeth y Gymraeg**

Dywedwyd, yn unol ag Adran 44 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, bod yr Awdurdod wedi cael Hysbysiad Cydymffurfio yn nodi nifer o Safonau'r Gymraeg yr oedd yn rhaid i'r Awdurdod gydymffurfio â hwy. Roedd un o'r Safonau hynny, Safon 145, yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod gyhoeddi strategaeth 5 mlynedd yn nodi sut y mae'n bwriadu hyrwyddo'r Gymraeg a hwyluso'r defnydd o'r iaith yn ehangach. Roedd rhaid adolygu'r strategaeth bob 5 mlynedd.

Roedd yr Awdurdod wedi mabwysiadu'r Strategaeth y Gymraeg gyfredol fis Tachwedd 2017, ac felly roedd yn rhaid i'r Awdurdod yn awr gynhyrchu Strategaeth newydd i gamu ymlaen dros y 5 mlynedd nesaf. I'r perwyl hwn, argymhellwyd sefydlu Gweithgor Aelodau a Swyddogion i adolygu perfformiad yr Awdurdod yn erbyn ei Strategaeth y Gymraeg gyfredol 2017 – 2022, ac i ddrafftio ail Strategaeth.

Mewn ymateb i gwestiynau'r Aelodau, dywedodd y swyddog nad oedd yn credu y byddai'n ymrwymiad mawr o ran amser, gyda'r cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn ôl Timau dros y 3-4 mis nesaf. Nid oedd am gyfyngu ar nifer yr Aelodau allai gymryd rhan, ac awgrymodd y Cadeirydd y dylai unrhyw un oedd â diddordeb anfon eu henwau at y Rheolwr Gwasanaethau Gweinyddol a Democrataidd cyn gynted â phosibl.

**Penderfynwyd** sefydlu Gweithgor Aelodau/Swyddogion i adolygu perfformiad yr Awdurdod yn erbyn ei Strategaeth y Gymraeg gyfredol

2017 – 2022, ac i ddrafftio ail Strategaeth ar gyfer hyrwyddo a hwyluso’r defnydd o’r Gymraeg o fewn y Parc Cenedlaethol dros y 5 mlynedd nesaf.

**15. Y Pwyllgor Safonau – Ailbenodi Aelod Annibynnol**

Dywedwyd bod Mr John Daniels wedi'i benodi'n aelod annibynnol o'r Pwyllgor Safonau ar 13 Rhagfyr 2017 am gyfnod o 5 mlynedd ac felly byddai ei benodiad yn dod i ben ar 13 Rhagfyr 2022. Yn unol â hynny, gofynnwyd am gymeradwyaeth i'w ailbenodi fel Aelod Annibynnol o Bwyllgor Safonau yr Awdurdod am gyfnod pellach o 4 blynedd hyd at 13eg Rhagfyr 2026. Byddai’r cyfryw ailbenodi yn unol â Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) (Diwygio) 2006 oedd yn darparu ar gyfer ailbenodi Aelod Annibynnol am un tymor olynol pellach o bedair blynedd heb yr angen i hysbysebu swydd wag.

Eglurodd y Swyddog Monitro ei fod wedi cael gair gyda Mr Daniels, a'i fod yn hapus i wasanaethu am dymor pellach.

**Penderfynwyd** ailbenodi Mr John Daniels yn Aelod Annibynnol o’r Pwyllgor Safonau am gyfnod o bedair blynedd hyd at 13 Rhagfyr 2026.

[Nid oedd y Cynghorydd S Hancock yn bresennol adeg ystyried yr eitem ganlynol].

**16. Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Cronfa Datblygu Cynaliadwy**

Dywedwyd bod yr Awdurdod wedi derbyn cyllid yn ddiweddar gan Gronfa Llywodraeth Cymru Lleoedd Cynaliadwy Tirweddau Cynaliadwy i gyflawni prosiect peilot Gwyrddu Amaethyddiaeth. Byddai’r prosiect yn gweithio gyda ffermydd yn y Parc Cenedlaethol i dreialu gwahanol ddulliau o ddatgarboneiddio drwy fesurau gwrthbwyso a lleihau carbon.

Swyddogion y prosiect fyddai’n derbyn ac yn arfarnu’r ceisiadau. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau llywodraethu da a thryloyw o ran gwneud penderfyniadau, argymhellwyd bod y Pwyllgor Cronfa Datblygu Cynaliadwy yn cadarnhau’r broses benderfynu a bod hyn i’w ychwanegu at gylch gorchwyl y Pwyllgor. Roedd Cylch Gorchwyl diwygiedig ynghlwm wrth yr adroddiad.

**Penderfynwyd** cymeradwyo’r newidiadau i Gylch Gorchwyl y Pwyllgor Cronfa Datblygu Cynaliadwy i gynnwys gwneud penderfyniadau mewn perthynas â'r cynllun peilot Gwyrddu Amaethyddiaeth, a hynny i ddigwydd yn ddiymdroi.

**17. Gwahardd y Cyhoedd**

**Penderfynwyd** gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod gan y byddai gwybodaeth eithriedig, fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf Llywodraeth Leol, yn cael ei datgelu.

**18. Bythynnod Sgowtiaid Sain Ffraid a'r Ardd Furiog**

Rhoddodd Swyddog Ystadau yr Awdurdod drosolwg o'r sefyllfa o ran prydles y Sgowtiaid ar fythynnod a gardd furiog Sain Ffraid ac o'u cais am ildio'r brydles honno yn gynnar. Mewn ymateb, roedd yr adroddiad yn nodi tri opsiwn i'r Aelodau eu hystyried. Pe cytunir ar ildio'r brydles yn gynnar, nodwyd y byddai adroddiad pellach ynghylch dyfodol y safle yn cael ei gyflwyno i gyfarfod o'r Awdurdod yn y dyfodol.

**Penderfynwyd** bod yr Awdurdod yn derbyn cais y Sgowtiaid i ildio eu prydles, yn unol ag Opsiwn 3 fel y nodir yn yr adroddiad.

**19. Adolygiad o Reolaeth Hamdden ar Draeth Trefdraeth**

Amlinellwyd y trefniadau hanesyddol o reoli tir hamdden ar Draeth Trefdraeth i'r Aelodau, ynghyd â'r heriau a wynebir ar hyn o bryd ar y safle.

**Penderfynwyd** cytuno ar y camau gweithredu a amlinellwyd yn yr adroddiad, a bod adroddiad pellach ar y mater yn cael ei gyflwyno gerbron yr Awdurdod maes o law.

| |
|---|
| Cadarnhawyd y cofnodion hyn yn y cyfarfod o'r Awdurdod Parc Cenedlaethol a gynhaliwyd ar 14 Rhagfyr 2022 heb eu diwygio. |